Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams, AC
Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

28 Mehefin 2019

Annwyl Kirsty

Addysg heblaw hynny yn yr ysgol

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi lansio ymchwiliad i addysg heblaw hynny yn yr ysgol yr wythnos hon. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad wedi'i nodi yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

Bydd ymgynghoriad y Pwyllgor ar agor tan 18 Hydref, a bydd sesiynau tystiolaeth lafar yn cael eu trefnu ar gyfer tymor yr Hydref. Wrth gwrs, byddwn yn cysylltu â chi maes o law i drefnu dyddiad sy'n addas i chi ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Ar yr adeg hon, ac wrth i ni ddechrau ystyried y mater hwn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu diweddariad ynghylch y broses o weithredu'r camau arfaethedig, fel y nodir yn yr Atodiad i'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer addysg heblaw hynny yn yr ysgol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. 2017.

Yn gywir

Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd / Chair

Atodiad A: Cylch gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i ystod y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Bydd yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys drwy eu gwahardd o ddarpariaeth brif ffrwd, a'r rhesymau dros y cymorth hwn
- Pa mor effeithiol y caiff rhieni gymorth a'u cynnwys drwy gydol proses addysg heblaw yn yr ysgol
- Yr amrywiad mewn cyfraddau addysg heblaw yn yr ysgol i blant a phobl ifanc â nodweddion penodol (megis dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) a chanlyniadau hyn
- Lefelau'r cymorth ariannol sydd ar gael i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, a'r rhai sydd mewn perygl o'i chael, ac a yw hyn yn cynrychioli gwerth am arian
- Cyfrifoldeb ac atebolrwydd am addysg disgyblion sy'n dod yn rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- Cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- Canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- Ansawdd y cymorth a roddir i blant a phobl ifanc yn yr ystod o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol
- Cymorth datblygiad proffesiynol i staff unedau cyfeirio disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n darparu addysg yn y cartref
- Y risgiau posibl i blant a phobl ifanc sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fel rhwystrau cynyddol i gael gafael ar gymorth iechyd meddwl, mwy o risg o ymwneud â throsedd a'r system cyfiawnder troseddol megis 'llinellau cyffuriau'.
- Materion eraill sydd â chysylltiad agos ag addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft symudiadau wedi'u rheoli, a dadgofrestru disgyblion

Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn cynnwys addysg yn y cartref unigol ond **ni fydd** yn canolbwyntio ar y mater ar wahân, sef addysg ddewisol yn y cartref.